# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 5**

CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

*Gorfodi dyledion*

**70 Adennill costau, llog etc**

(1) Gellir adennill unrhyw swm sy'n ddyledus i awdurdod lleol o dan y Rhan hon gan yr awdurdod fel dyled sy'n ddyledus iddo.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn gymwys mewn achos lle y gellid ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig, yn unol â rheoliadau o dan adran 68, oni bai—

(a) bod yr awdurdod lleol wedi ceisio ymrwymo i gytundeb o'r fath â'r person y mae'r swm yn ddyledus ganddo, a

(b) bod y person hwnnw wedi gwrthod.

(3) Gellir adennill yn ddiannod fel dyled sifil swm y gellir ei adennill gan awdurdod lleol o dan is-adran (1) (ond nid yw hynny'n effeithio ar unrhyw ddull arall o'i adennill).

(4) Gellir adennill swm o dan yr adran hon o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y daw'r swm yn ddyledus i'r awdurdod lleol.

(5) Pan fo person a grybwyllir yn is-adran (6) yn camliwio neu'n methu â datgelu (p'un ai'n dwyllodrus neu fel arall) i awdurdod lleol unrhyw ffaith o bwys mewn cysylltiad â darpariaethau'r Rhan hon, mae'r symiau canlynol yn ddyledus i'r awdurdod gan y person hwnnw—

(a) unrhyw wariant a dynnir gan yr awdurdod o ganlyniad i'r camliwio neu'r methiant, a

(b) unrhyw swm y gellir ei adennill o dan yr adran hon ac nad yw'r awdurdod wedi ei adennill o ganlyniad i'r camliwio neu'r methiant.

(6) Y personau yw—

(a) oedolyn—

(i) y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol y mae arno anghenion am ofal a chymorth neu (yn achos gofalwr) am gymorth o dan Ran 3, a

(ii) y mae ganddo'r galluedd i ddeall p'un a allai ffaith fod o bwys mewn cysylltiad â darpariaethau'r Rhan hon;

(b) oedolyn—

(i) y darperir rhywbeth iddo er mwyn diwallu anghenion person arall am ofal a chymorth neu (yn achos gofalwr) am gymorth o dan Ran 3, a

(ii) y mae ganddo'r galluedd i ddeall p'un a allai ffaith fod o bwys mewn cysylltiad â darpariaethau'r Rhan hon;

(c) oedolyn o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau mewn perthynas â gofal a chymorth, neu (yn achos gofalwr) cymorth, ac y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol bod angen y gofal a'r cymorth hwnnw, neu'r cymorth hwnnw, ar—

(i) plentyn, neu

(ii) oedolyn nad oes ganddo'r galluedd i ddeall p'un a allai ffaith fod o bwys mewn cysylltiad â darpariaethau'r Rhan hon.

(7) Gellir adennill y costau rhesymol a dynnir gan awdurdod lleol wrth adennill neu wrth geisio ag adennill swm sy'n ddyledus iddo o dan y Rhan hon gan yr awdurdod fel dyled sy'n ddyledus iddo; ac mae is-adran (3) yn gymwys i adennill y costau hynny fel petaent yn symiau y mae is-adran (1) yn gymwys iddynt.

(8) Caiff rheoliadau—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarnu'r dyddiad y daw swm yn ddyledus i awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon;

(b) pennu achosion neu amgylchiadau lle na all awdurdod lleol adennill o dan yr adran hon swm sy'n ddyledus iddo o dan y Rhan hon;

(c) pennu achosion neu amgylchiadau lle y caiff awdurdod lleol godi llog ar swm (gan gynnwys unrhyw gostau y gellid eu hadennill o dan is-adran (7)) sy'n ddyledus iddo o dan y Rhan hon;

(d) pan ellir codi llog, ddarparu—

(i) bod rhaid iddo gael ei godi yn ôl cyfradd sy'n uwch na'r gyfradd a bennir mewn rheoliadau neu a ddyfernir yn unol â hwy;

(ii) na chaniateir ei godi yn ôl cyfradd sy'n uwch na'r gyfradd a bennir mewn rheoliadau neu a ddyfernir yn unol â hwy.